NADOLIG

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu: Dwyieithrwydd / Datblygu'r Gymraeg

- Casglu arteffactau Nadoligaidd a dysgu'r eirfa berthnasol
- Ymgyfarwyddo â'r idiomau 'ar bigau'r drain', 'brensiach y bratie', 'wrthi fel lladd nadroedd'
- Creu llyfryn/stori yn cynnwys idiom
- Cael coeden Nadolig fechan ffug a'r plant i gael chwarae'n rhydd yn ei haddurno gyda pheli, tinsel, clychau, sêr, sanau, a.y.y.b. i ymgyfarwyddo â'r eirfa
- Edrych ar gardiau Nadolig, trafod y cyfarchion
- Plant i greu cardiau Nadolig eu hunain
- Ysgrifennu llythyr at Siôn Corn
- Creu rhestr siopa i Siôn Corn
- Cyfarwyddiadau sut i goginio cacen Nadolig/mins peis. Llunio rhestr gynhwysion
- Llythyr diolch am anrheg
- Ceisio meddwl am wrthrych yn ymwneud â'r Nadolig a fydd yn cyfateb i bob llythyren o'r wyddor
- Llunio cyfarwyddiadau sut i adeiladu dyn eira
- Creu barddoniaeth syml am un o'r cymeriadau
- Disgrifio un o'r cymeriadau
- Rhoi 'gwrthrych' mewn hosan Nadolig a'r plant i ddyfalu beth sydd ynddi drwy ofyn cwestiynau – Ydi e'n fwyd/tegan? Ydi e'n symud? Ydi e'n feddal? a.y.y.b.
- Ymchwilio i arferion a thraddodiadau Cymreig, e.e. Y Fari Lwyd; Hela'r Dryw; Y Plygain

Datblygiad Mathemategol

- Trafod siapiau 2D a 3D. Siâp amlenni a siâp parseli
- Lluniau Nadolig sy'n gymesur
- Sut mae lluniau Nadoligaidd yn edrych wedi cael hanner tro/chwarter tro?
- Pwyso cynhwysion i wneud cacen Nadolig

Gwyddoniaeth

- Trafod pa ddefnyddiau sy'n wrth-ddŵr ac a fyddai yn cadw rhywun yn sych. Casglu gwahanol ddefnyddiau a'r plant i arbrofi
- Bwydydd Nadolig – y plant i goginio a sylwi sut mae'r cynhwysion yn newid
- Gwneud cacen Nadolig
- Pa ddefnyddiau sydd orau i'n cadw'n gynnes? Casglu defnyddiau a'r plant i arbrofi
- Beth sy'n digwydd i ddŵr wrth ei roi yn yr oergell? Ceisio llenwi pethau siâp diddorol â dŵr, yna eu rhewi, e.e. menig rwber, balŵn
- Trafod gwahanol ffyrdd o symud – sgïo, sglefrio

Dyniaethau

- Ble mae'r plant yn byw? Cyfeiriadau. Y gwahaniaeth rhwng stryd/pentref/tref a.y.y.b.
- Trafod gwahanol fath o dywydd
- Stori'r geni. Cyfle i actio rhai o'r rhannau
- Trafod arferion Nadolig ers talwm. Holiadur i taid a nain a chymharu Nadoligau ddoe a heddiw
- Gwneud cadwynau papur allan o bapur newydd/papur brown a blawd a dŵr i'w gludo
- Addurno oren â chlofau a rhoi rhuban o'i amgylch

Datblygiad Corfforol

- Creu dawns i gyfleu teimladau cynhyrfus noswyl Nadolig/gweithgareddau'r Gaeaf – adeiladu dyn eira, taflu peli eira

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

- Pasio'r parsel, trafod pwysigrwydd cymryd tro wrth chwarae gemau a chwarae'n deg
- Trafod teimlo'n siomedig/hapus wrth chwarae'r gêm, pasio'r parsel
- Pwysigrwydd diolch am anrhegion
- Trafod teimladau cynhyrfus noswyl Nadolig
- Trafod teimladau nerfus wrth gymryd rhan mewn cyngerdd Nadolig

Datblygiad Creadigol

- Printio papur lapio Nadoligaidd
- Creu modelau/pypedau syml o gymeriadau'r stori/cymeriadau Nadoligaidd
- Creu lluniau/peintiadau/lluniau cyfrifiadurol o wrthrychau Nadoligaidd
- Gwrando ar gerddoriaeth a chyfansoddi darn yn mynegi teimlad cynhyrfus noswyl Nadolig

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

- Trafod sut mae pobl yn dathlu'r Nadolig mewn gwahanol rannau o'r byd
- Plant i sylwi ar gyfarchion ar gardiau Nadolig – rhai Saesneg a Chymraeg
- Gwrando ar garolau o wahanol wledydd

Technoleg Gwybodaeth

Anogir athrawon i hybu'r defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth wrth ymchwilio a chofnodi gwybodaeth